**A oes sgil-effeithiau?**

Weithiau gall Propess achosi rhai sgil-effeithiau sydd fel arfer yn ysgafn ac sy'n cynnwys cyfog, chwydu, pendro neu'n anaml y bydd crychguriadau'r galon a thwymyn. Os bydd unrhyw un o'r rhain yn digwydd i lefel sy'n peri gofid, dylech ffonio'r ysbyty. Mae siawns brin iawn y gallech fod yn sensitif iawn i Propess a dechrau cael cyfangiadau'n aml ac yn gryf iawn:

- ·Mwy na 5 cyfangiad mewn 10 munud
- ·Cyfres o gyfangiadau, pob un yn para 2 funud neu fwy
- ·Poen difrifol yn yr abdomen

**Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i chi ffonio'r ysbyty a mynd i'r uned ar unwaith. Os yw'n bosibl, dylech hefyd dynnu'r Propess drwy dynnu ar y llinyn, fel y byddech wrth dynnu tampon.**

**Ysbyty Brenhinol Gwent**
**Uned Asesu Dydd - 01633 234752**
**(yn ystod oriau swyddfa)**

**Ysbyty Nevill Hall**
**Uned Asesu Dydd - 01873 732139**
**(yn ystod oriau swyddfa)**

**Ysbyty Ystrad Fawr**
**Uned Asesu Dydd - 01443 802657**
**(yn ystod oriau swyddfa)**

**Brysbennu - Ysbyty Athrofaol y Faenor - 01633 493530 - 24 awr**

**Canolfan Geni Ochr yn Ochr - Ysbyty Athrofaol y Faenor - 01633 493613 - 24 awr**



# Cleifion Allanol Ysgogi Esgor

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Ysgogi esgor yw'r broses o ddechrau esgor yn artiffisial. Gallwn gynnig ysgogi esgor naill ai yn yr ysbyty neu am ran o'r broses fel claf allanol. Cynigir ysgogi esgor fel claf allanol i chi os oes gennych feichiogrwydd 'risg isel' a'ch bod dros eich dyddiad dyledus o 41 wythnos + 6 diwrnod**

### Beth yw Manteision Ysgogi Esgor fel Claf Allanol?

- ·Gostyngiad yn yr amser a dreuliwch yn yr ysbyty cyn i chi roi genedigaeth
- ·Gwneud i'r broses o ysgogi esgor deimlo'n fwy normal
- ·Yn caniatáu i chi dreulio mwy o amser yn eich amgylchedd cartref gyda'ch teulu

### Byddwch yn cael cynnig Ysgogi Esgor fel Claf Allanol os:

- ·Oes gennych feichiogrwydd heb gymhlethdodau sy'n gofyn am ysgogi er mwyn atal beichiogrwydd estynedig (Dyddiad dyledus 41 wythnos + 6 diwrnod)
- ·Mae gennych hanes geni blaenorol heb gymhlethdodau
- ·Rydych wedi cael dim mwy na phedair genedigaeth flaenorol
- ·Mae gennych fynediad i ffôn
- ·Rydych wedi cael archwiliad llawn ac yn addas ar gyfer ysgogi
- ·Rydych wedi cael canlyniadau calonogol o fonitro calon y babi

### Beth fydd yn digwydd ar y diwrnod?

- Gofynnir i chi fynychu'r Uned Asesu Dydd yn eich ysbyty
- ·Cynhelir asesiad cyn-geni llawn, gan gynnwys monitro calon electronig 30 munud ar eich babi ac archwiliad mewnol i asesu ceg y groth
- ·Os yw'n addas, bydd y feddyginiaeth ysgogi, o'r enw Propess, yn cael ei mewnosod yn y wain. Mae Propess fel tampon gwastad bach sy'n cynnwys prostaglandin, a ddefnyddir i annog ceg y groth
- ·i feddalu'n barod i esgor ddechrau. Mae Propess yn aros y tu mewn am hyd at 24 awr ac mae ganddo linyn a ddefnyddir wrth ei dynnu.
- ·Bydd llinyn y Propess y tu mewn i'r wain ac mae'n bwysig iawn eich bod yn cymryd gofal wrth sychu eich hun ar ôl mynd i'r toiled neu wrth ymolchi, fel nad ydych yn tynnu neu'n llusgo arno.
- ·Bydd calon eich babi'n cael ei fonitro am 30 munud ac os yw hyn yn normal gallwch fynd adref.
- ·Byddwch yn cael amser, tua 12 awr ar ôl mewnosod y Propess, i ddychwelyd i'r ysbyty fel y gall y fydwraig wirio bod popeth yn normal. Yn ystod yr ymweliad hwn, bydd calon eich babi'n cael ei monitro dro ar ôl tro, ond ni fyddwch yn cael archwiliad mewnol, oni bai eich bod yn profi cyfangiadau neu wedi mynegi pryderon sy'n gofyn am archwiliad o'r wain. Os yw popeth yn normal gallwch fynd yn ôl adref a byddwch yn cael amser i ddychwelyd i'r ysbyty ymhen tua 12 awr, pryd y bydd y Propess yn cael ei dynnu a bydd cynllun yn cael ei wneud i barhau i ysgogi esgor fel claf mewnol.

### Beth sy'n digwydd pan af i adref?

Mae'r Propess rydych chi wedi cael yn gweithio i baratoi ceg y groth. Mae hyn yn golygu bod ceg y groth yn meddalu, yn byrhau ac yn dechrau agor. Fel arfer, byddwch yn teimlo poen fel poen mislif tra bydd hyn yn digwydd ac efallai y byddwch yn ymwybodol o'ch groth yn tynhau ac yn ymlacio'n ysbeidiol. Weithiau gall Propess arwain at gyfangiadau esgor yn dechrau. Mae'n iawn aros gartref os oes gennych deimlad o dynhau. Gallwch gymryd bath cynnes a chadw i symud, a fydd yn eich helpu i ymlacio. Os ydych chi'n profi cyfangiadau sydd bob 5 munud neu lai ac yn meddwl y gallech fod mewn esgoriad, gallwch barhau i gael cynnig y cyfle i eni yn ein Hunedau dan Arweiniad Bydwreigiaeth Ochr yn Ochr (Alongside) (rhifau ffôn isod). Os oes gennych boen sy'n gyson, dylech ffonio rhifau ffôn argyfwng yr ysbyty ar y daflen hon a dod i mewn i gael eich asesu.

### Cysylltwch â'r ysbyty ar unwaith os profwch chi un o'r canlynol:-

- Y·Credwch fod eich dyfroedd wedi torri
- ·Mae gennych gyfangiadau rheolaidd a phoenus a chredwch y gallech fod yn dechrau esgor
- ·Mae gennych boen cyson
- ·Rydych yn poeni ac nid ydych yn teimlo eich bod yn ymdopi gartref
- · Mae gennych unrhyw waedu ffres o'r wain
- ·Mae symudiadau eich babi wedi lleihau
- ·Mae'r Propess yn cwympo allan neu'n gollwng yn isel yn y wain